WALES & CHESTER CIRCUIT
CYLCHDAITH CYMRU A CHAER

Annwyl bawb, 10 Ionawr 2019

Blwyddyn newydd dda i chi.

Dyma fy nhrydydd cylchlythyr i roi gwybod i chi am rai o'r cynlluniau ar gyfer y Gylchdaith a digwyddiadau perthnasol eraill ar gyfer 2019. Dyma hefyd fy nghylchlythyr olaf fel arweinydd a hoffwn achub ar y cyfle cynnar hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth dros y 2 flynedd ddiwethaf. Rwy'n sicr y bydd fy nhrydedd flwyddyn, a'm blwyddyn olaf, yn mynd heibio hyd yn oed yn gynt na'r ddwy flynedd gyntaf!

**NEWIDIADAU**

Mae newidiadau pellach wedi bod ers fy nghylchlythyr diwethaf. Yn dilyn penodiad Robert Vernon fel Barnwr Ardal, mae David Gareth Evans (9PP) wedi ymuno â'r tîm addysg.

Rhoddodd Caroline Rees CF (30PP) y gorau i'w rôl fel bargyfreithiwr ieuaf Caerdydd ar ôl cael ei derbyn fel un o'r sidanwyr yn 2018. Mae Claire Williams (30PP) wedi ymgymryd â'r rôl hon. Fodd bynnag, mae Caroline wedi cytuno i barhau i fod yn aelod cyfetholedig o'r pwyllgor rheoli er mwyn rhoi Cynllun Mentora Merched ar waith. Gwnaeth Owen Thomas CF (9PP) hefyd gytuno i gymryd cyfrifoldeb am gôr y Gylchdaith.

Mae un newid wedi bod i Bwyllgor Rheoli'r Gylchdaith. Mae Oliver Harris (30PP) wedi disodli Nia Gowan (30PP) fel cynrychiolydd yr ymarferwyr iau. Diolch yn fawr iawn i Nia am ei chyfraniad i'r pwyllgor yn y gorffennol.

Mae rhestr ddiwygiedig o 'dîm' newydd y Gylchdaith wedi'i hatodi i'r llythyr hwn.

**RHAGLENNI ADDYSG / HYFFORDDIANT**

**Y newyddion diweddaraf cyffredinol**

Yn 2019, bydd y Gylchdaith yn cynnal y digwyddiadau canlynol:

**Cwrs goruchwylwyr disgyblion**

Bwriad Heath yw cynnal cwrs ar gyfer goruchwylwyr disgyblion y dyfodol ar y Gylchdaith ym mis Mehefin 2019.

**Cwrs ymarferwyr newydd**

Cynhelir y rhaglen ymarferwyr newydd eleni ar 17 a 18 Mai 2019

**Hyfforddiant i ddisgyblion**
Cynhelir hyfforddiant eiriolaeth i ddisgyblion ar 7, 14 a 21 Ionawr 2019.

**Hyfforddiant ar dystion sy'n agored i niwed**
Os gwneir cynnydd o ran cyflwyno hyfforddiant ar dystion sy'n agored i niwed i ddisgyblaethau ac eithrio troseddu, y Gylchdaith fydd yn arwain y blaen o ran darparu hyfforddiant o'r fath.

## GWEITHGAREDDAU / DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL

**Ciniawau'r Gylchdaith**
Cynhelir cinio i'r Gylchdaith yn Neuadd Fawr Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd ddydd Gwener 15 Chwefror 2019. Bydd y cinio yn dathlu penodiad yr Arglwyddes Ustus Nicola Davies, cyn-Lywydd y Gylchdaith, i'r Llys Apêl. Bydd y cinio hefyd yn dathlu penodiad Syr Andrew McFarlane, cyn-aelod rheolaidd o'r Llys Apêl pan oedd y Llys yn ymgynnull yng Nghymru, fel Llywydd yr Is-adran Deuluol.
Bydd hefyd cinio Ysbyty Gray ar y Gylchdaith ar gyfer aelodau o'r Ysbyty hwnnw ar Ddydd Gŵyl Dewi 2019 yn y Plasty, Caerdydd

**Gweithgareddau cymdeithasol anffurfiol y Bar**
Rwyf hefyd wedi gofyn i bob un o'r 3 bargyfreithiwr ieuaf lleol drefnu gweithgaredd cymdeithasol anffurfiol ym mhob un o'r 3 canolfan yn gynnar yn 2019. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan

## NEWYDDION / DIGWYDDIADAU ERAILL

**Ffioedd Troseddol AGFS**
Ar adeg cwblhau'r cylchlythyr hwn, mae ymarferwyr troseddol ar y Gylchdaith wrthi o hyd yn crynhoi'r ffigurau diweddar yn y cynllun a ddiwygiwyd ymhellach. Mae'r CBA yn cynllunio cyfres o gyfarfodydd ledled Cymru a Lloegr i ymgynghori ar y ffordd ymlaen. Bydd y Gylchdaith yn hwyluso cyfarfod (yn debygol ar 5/2/19) yn cynnwys pob un o'r 3 canolfan – bydd manylion ar gael yn fuan

**Ffioedd Gwasanaeth Erlyn y Goron**
Mae Cadeirydd y Bar, Cadeirydd CBA ac Arweinwyr y Gylchdaith wedi cynnal cyfarfod cychwynnol â'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ofyn am adolygiad cynhwysfawr o ffioedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn y newidiadau diweddar i ffioedd yr amddiffyniad.

**Comisiwn yr Arglwydd Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru**
Ynghyd ag aelodau eraill o'r Gylchdaith, byddaf yn rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn yn ddiweddarach y mis hwn.

**Mentoriaid 'JAC'**
Neges i'ch atgoffa unwaith eto bod y Gylchdaith wedi sefydlu panel anffurfiol o aelodau, sydd wedi ymgymryd â phroses 'JAC' yn llwyddiannus yn ddiweddar er

mwyn cynnig gwasanaeth mentora cyfrinachol i'r rheini sy'n ystyried cyflwyno unrhyw geisiadau JAC. Cysylltwch ag Abi os hoffech fanteisio ar y gwasanaeth hwn.

**Cynllun Mentora Merched**

Gosododd y Gylchdaith y sylfeini ar gyfer sefydlu fforwm Merched y Gylchdaith. Roedd yn bleser gennym gyhoeddi'r prosiect yn ffurfiol yn ystod Wythnos Cyfiawnder. Caiff y Fforwm ei arwain gan Caroline Rees CF a'i gefnogi gan bwyllgor llywio o Siambrau a meysydd ymarfer gwahanol ledled y Gylchdaith. Diben y Fforwm yw annog a chefnogi aelodau o'r Gylchdaith sy'n ferched yn eu gyrfaoedd. Caiff prosiect mentora hefyd ei sefydlu. Mae'r Gylchdaith wedi cytuno i ariannu digwyddiad lansio ac mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu dyddiad ar gyfer y digwyddiad. Gobeithio y gall y prosiect hwn ddilyn esiampl lwyddiannus Fforwm Merched Cylchdaith y Gorllewin, yr ydym wedi bod yn gweithio gyda nhw i ddysgu o'u profiadau.

**Ymweliad Cadeirydd Cyngor y Bar**

Cadeirydd newydd Cyngor y Bar yw Richard Atkins CF. Bydd yn ymweld â Chaerdydd ddydd Mawrth 5 Chwefror ac Abertawe ddydd Mercher 6 Chwefror 2019. Mae'n awyddus i gyfarfod â chymaint o aelodau o'r Gylchdaith â phosibl. Bydd manylion y cyfarfodydd arfaethedig â Richard yn dilyn yn fuan.

**Côr y Gylchdaith**

Mae'n bleser gennyf nodi ein bod wedi gallu ailsefydlu côr y Gylchdaith, a oedd wedi perfformio mewn dau ddigwyddiad codi arian yn 2018. Bydd y côr yn perfformio nesaf yn ystod cinio Ysbyty Gray ar Ddydd Gŵyl Dewi. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r côr (nid oes angen unrhyw brofiad corawl blaenorol arnoch!) bydd ymarferion yn ailddechrau yng nghanol mis Ionawr. Cysylltwch ag Owen Thomas CF yn OTQC@9parkplace.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.

**Chwaraeon**

Bydd y timau criced a pêl-droed y Gylchdaith yn chwarae un waith eto eleni. Cysylltwch â Jonathan Rees (Apex) am ragor o fanylion

**PWYNTIAU ERAILL**

**Rhestrau diwygiedig y Gylchdaith**

Dylai rhestrau diwygiedig y Gylchdaith bellach fod ar gael yn ystafelloedd gwisgo eich llysoedd lleol. Os nad oes rhestr yn eich llys lleol, a fyddech cystal â rhoi gwybod i Abi.

**Cyfleusterau fideogynadledda**

Mae'r Gylchdaith wedi buddsoddi mewn cyfleusterau fideogynadledda symudol diogel er mwyn hwyluso cyfarfodydd y Gylchdaith gyfan. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, bydd y cyfleuster hwn (ar gael yng Nghaerdydd, Abertawe a Chaer) ar gael i aelodau o'r Gylchdaith / staff siambrau sydd am gymryd rhan mewn sesiynau fideogynadledda diogel yn fuan. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan.

**EICH CYFRANIAD CHI**

Mae'r Gylchdaith yn bodoli er eich lles proffesiynol chi. Mae'n parhau i fod yr un mor ddibynnol arnoch chi yn cymryd rhan weithgar mewn digwyddiadau. Gobeithio y bydd rhywbeth yn y rhaglen i bawb unwaith eto eleni.

Hefyd, os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch y Gylchdaith, neu os ydych yn dymuno codi unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r cylchlythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi, Abi, neu un o aelodau tîm y Gylchdaith.

Dymuniadau gorau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Paul

**TÎM Y GYLCHDAITH**

| | |
|---|---|
| Arweinydd | Paul Hopkins CF |
| Trysorydd | Rhodri Williams CF |
| Bargyfreithiwr Ieuaf ac Ysgrifennydd y Gylchdaith | Jonathan Rees |
| Bargyfreithiwr Ieuaf Caerdydd | Claire Williams |
| Bargyfreithiwr Ieuaf Caer | Jonathan Austin |
| Bargyfreithiwr Ieuaf Abertawe | Dominic Boothroyd |
| Swyddog Etholiadau | Ben Blakemore |
| Swyddog Addysg | Heath Edwards |
| Tîm ymarferwyr ifanc / hyfforddiant i ddisgyblion | Marian Lewis |
| | Mathew Roberts |
| | Duncan Bould |
| | David Gareth Evans |
| Aelodau'r Bwrdd Rheoli | Paul Hopkins CF |
| | Rhodri Williams CF |
| | James Tillyard CF |
| | David Elias CF |
| | Heath Edwards |
| | Sion ap Mihangel |
| | Ben Blakemore |
| | Mathew Curtis |
| | Lowri Wyn-Morgan |
| | Oliver Harris |
| Aelodau Cyfetholedig: | |
| Cynllun Mentora Merched | Caroline Rees CF |
| Côr | Owen Thomas CF |
| Cynrychiolwyr Cyngor y Bar | Rhodri Williams CF |
| | Chris Rees |
| Cynrychiolwyr CBA | Chris Clee CF |
| | Owen Edwards |
| | Jonathan Rees |
| Gweinyddwr y Gylchdaith | Abi Hobson |